Atodiad A

# Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU
# DOGFEN YMGYNGHORI

**YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I GYNYDDU CAPASITI AR GYFER ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG TRWY EHANGU YSGOL IOLO MORGANWG O 210 O LEOEDD I 420 O LEOEDD O FIS MEDI 2025.**



*Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille. Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 709828 01446 709828 i drefnu hyn.*

# TABL Y CYNNWYS

**1. Cyflwyniad ... 1**
1.1. Cefndir ... 1
1.2. Y cynnig ... 3
1.3. Ymateb i'r cynnig ... 3
**2. Y Cynnig ... 5**
2.1. Crynodeb ... 5
2.2. Beth fyddai hyn yn ei olygu? ... 5
2.3. Pam ydym ni'n cynnig y newidiadau? ... 6
**3. Goblygiadau'r Cynnig ... 8**
3.1. Gwybodaeth am yr ysgol ... 8
3.2. Deilliannau addysgol ... 10
3.3. Effaith fwriadedig ar ddeilliannau addysg ... 11
3.4. Darpariaeth gymraeg ... 15
3.5. Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ady) ... 15
3.6. Effeithiau ar ysgolion eraill ... 16
3.7. Tir ac adeiladau ... 16
3.8. Cyllid ... 17
3.9. Adnoddau dynol ... 18
3.10. Trefniadau trafnidiaeth a theithio gan ddysgwyr ... 18
**4. Ystyriaethau Eraill ... 20**
4.1. Manteision posibl y cynnig hwn o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol ... 20
4.2. Anfanteision posibl y cynngi hwn o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol ... 20
4.3. Risgiau posibl y cynnig hwn a mesurau i liniaru risgiau a adnabuwyd ... 20
4.4. Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ... 21
4.5. Asesiad o'r effaith ar y gymuned ... 21
4.6. Cyfraniadau at lesiant cenedlaethau'r dyfodol ... 22
4.7. Dewisiadau eraill a gafodd eu hystyried ... 22
**5. Y Broses Ymgynghori Statudol ... 23**
5.1. Dyddiadau allweddol ... 24
**6. Cwestiynau Cyffredin ... 26**
**7. Cynnwys Rhanddeiliaid ac Ymateb i'r Ymgynghoriad ... 28**
7.1. Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad ... 29
7.2. Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff – sut y gallwch gael gwybod mwy a rhoi eich barn **Error! Bookmark not defined.**

7.3. Sut y gallwch gael gwybod mwy a rhoi eich barn ........ 30
**8. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ........ 32**
**9. Ffurflen Monitro Cydraddoldeb Bro Morgannwg ........ 37**

## RHESTR O'R TABLAU

Tabl 1: Gwybodaeth am Ysgol Iolo Morganwg ........ 8
Tabl 2: Gala Rhagamcanol ar gyfer Disgyblion yn Ysgol Iolo Morganwg ........ 9
Tabl 3: Gwybodaeth am Ysgolion Cyfagos ........ 9
Tabl 4: Gwybodaeth ADY ar gyfer Ysgol Iolo Morganwg ........ 15
Tabl 5: Adroddiad ar Gyflwr Ysgol Iolo Morganwg 2022 ........ 16
Tabl 6: Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol ........ 23
Tabl 7: Dyddiadau allweddol y broses ........ 25
Tabl 8: Rhestr o grwpiau i ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori ........ 28
Tabl 9: Digwyddiadau Ymgysylltu'r Ymgynghoriad ........ 29

# EGLURHAD O DERMAU A DDEFNYDDIR YN Y DDOGFEN HON

**'Nifer Derbyn'** - Rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at o leiaf eu nifer derbyn cyhoeddedig. Y nifer derbyn yw nifer y lleoedd disgyblion sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.

**'ADY'** (Anghenion Dysgu Ychwanegol) – Mae gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddynt anhawster neu anabledd dysgu (pa un a yw'r anhawster neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

**'Capasiti'** – Ystyr capasiti ysgol yw cyfanswm y lleoedd i ddisgyblion o oedran statudol sydd ar gael; nid yw'n cynnwys lleoedd meithrin.

**'Dalgylch'** – Ardal y mae disgyblion ynddi'n gymwys i fynychu ysgol leol. Bydd plant yn y dalgylch wastad yn cael blaenoriaeth dros geisiadau o'r tu allan i'r dalgylch; fodd bynnag, nid oes sicrwydd y bydd unrhyw blentyn yn cael ei dderbyn i'w ddewis ysgol.

**'Cymunedol'** – Math o ysgol a ariennir gan y wladwriaeth lle mae'r awdurdod addysg lleol yn cyflogi staff yr ysgol, yn gyfrifol am dderbyn plant i'r ysgol ac yn berchen ar ystâd yr ysgol.

**'Enwadol'** – Ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig e.e. Yr Eglwys yng Nghymru.

**'Y Ddeddf Cydraddoldeb'** - Mae'r Ddeddf yn cwmpasu pob agwedd ar fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r ffordd y mae ysgol yn trin disgyblion a darpar ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, cyflogeion ac aelodau o'r gymuned. Rhaid i bopeth y mae ysgol yn ei wneud fod yn deg, peidio â gwahaniaethu a pheidio â rhoi unigolion na grwpiau o bobl dan anfantais. Yn arbennig, rhaid i ysgol beidio â gwahaniaethu yn erbyn disgybl na darpar ddisgybl, nac aflonyddu arnynt na'u fictimeiddio mewn perthynas â; derbyniadau, y ffordd y mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion, sut y mae'n rhoi mynediad i ddisgyblion at unrhyw fudd, cyfleuster neu wasanaeth, a gwahardd disgybl neu beri unrhyw anfantais arall iddynt.

**'Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb'** - Proses yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd wedi'i bwriadu i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau gwarchodedig.

**'Cyfrwng Saesneg'** – Ysgol lle mae'r dysgu a'r addysgu'n digwydd trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf.

**'ALl'** (Awdurdod Lleol) – Mae'r Awdurdod Lleol y cyfeirir ato yn y ddogfen hon yn golygu Cyngor Bro Morgannwg oni nodir yn wahanol.

**'NAG'** (Nifer ar y Gofrestr) - Nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol. Nid yw'n cynnwys lleoedd meithrin.

**'CYBLD'** (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) - Ym mis Ionawr bob blwyddyn, caiff gwybodaeth wedi'i dilysu ei chasglu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data ynghylch y Gymraeg, cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig ac iaith gyntaf.

**'GY'** (Gweithredu gan yr Ysgol) - Pan fo athro/athrawes dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl ADY yna mae'n darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol neu'n wahanol iddynt.

**'GY+'** (Gweithredu gan yr Ysgol +) - Pan fo athro/athrawes dosbarth neu bwnc a'r Cydlynydd ADY yn cael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, fel bod ymyriadau amgen sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir ar gyfer y disgybl trwy GY neu sy'n wahanol iddynt yn gallu cael eu rhoi yn eu lle.

**'Adran 106'** - Caiff y cyfraniad Adran 106 ei geisio gan unrhyw un sydd â buddiant mewn adeiladu datblygiad tai, tuag at gostau darparu seilwaith cymunedol a chymdeithasol, darpariaeth addysgol, mannau agored / offer chwarae, cludiant neu ofal iechyd ar gyfer y rhai a fydd yn byw yn y cartrefi newydd.

**'CAA'** (Canolfan Adnoddau Arbenigol) – Cyfleuster o fewn yr ysgol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

**'Disgybl â Datganiad'** - Mae gan blentyn Ddatganiad o Angen Addysgol (AAA), a adwaenir fel arall fel ADY, os oes gan y plentyn anawsterau dysgu sy'n golygu ei bod yn ofynnol rhoi darpariaeth addysgol arbennig i'r plentyn. Mae anhawster dysgu'n golygu bod y plentyn yn profi anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran neu fod gan y plentyn anabledd sy'n golygu bod angen cyfleusterau addysgol gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant fel rheol.

**'Cyfrwng Cymraeg'** - Ysgol lle mae'r dysgu a'r addysgu'n digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf.

**'CSCA'** (Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg) – mae'r CSCA yn nodi cynllun deng mlynedd y Cyngor ar gyfer datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg ymhellach. Mae'n adeiladu ar waith y CSCA blaenorol ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2022 ac yn nodi cynllun gwaith sy'n dangos sut y mae'r Cyngor yn bwriadu gwireddu ei weledigaeth ddeng mlynedd.

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1. CEFNDIR

Ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu plant 3 i 11 oed yng Ngogledd Orllewin Bro Morgannwg ac sydd wedi'i lleoli yn y Bont-faen yw Ysgol Iolo Morganwg. O ran derbyniadau, mae 30 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn gyda chyfanswm capasiti o 210 o ddisgyblion. Mae gan yr ysgol uned feithrin ran-amser â 66 o leoedd hefyd.

Mae Ysgol Iolo Morganwg yn cynnwys prif adeilad Fictoraidd a godwyd ym 1900, bloc ffreutur o'r un cyfnod a thri chaban y mae dau ohonynt yn cael eu defnyddio ar gyfer ystafelloedd dosbarth ac un ar gyfer storio. Ceir 3 thŷ allan hefyd sy'n gysylltiedig â'r ysgol a godwyd ar adeg debyg i'r prif adeilad Fictoraidd ac a ddefnyddir ar gyfer storio. Mae'r ysgol ar safle cyfyng ar oleddf heb unrhyw obaith i gynyddu'r safle'n sylweddol i gyrraedd safonau'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Ceir 9 ystafell ddosbarth sy'n gwasanaethu'r ysgol sy'n amrywio mewn maint ac sy'n achosi anawsterau o ran cynnal y capasiti disgyblion gofynnol ar gyfer 30 o blant. Nid yw'n bosibl disodli'r ysgol ag adeilad newydd yn ei lleoliad presennol oherwydd lle awyr agored cyfyngedig.

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystâd addysgol ledled Cymru. Mae'n fenter gydweithredol unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Mae gan Gyngor Bro Morgannwg hanes da o gyflawni prosiectau yr ymgymerwyd â hwy fel rhan o Fand A a Band B y Rhaglen ar amser ac o fewn y gyllideb. Mae disgwyl i'r Cyngor gael cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel rhan o'r rhaglen dreigl ar gyfer datblygu ysgolion newydd i adeiladu'r ysgol newydd ar dir addysg a ddyrannwyd ar y datblygiad preswyl newydd ar Dir i'r Gogledd Orllewin o Fferm y Darren (a adwaenir fel Gerddi Clare).

Mae Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017 yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn un o'r tair thema allweddol, a bydd y newidiadau trawsffurfiol allweddol canlynol yn ofynnol o fewn y sector addysg er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon.

Mae'r Cyngor yn derbyn, er mwyn cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru i sicrhau Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bod angen buddsoddiad sylweddol ym myd addysg i greu a hwyluso'r galw am addysg Gymraeg. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Bro Morgannwg 2022-32 yn rhan annatod o strategaeth y Cyngor ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r amcanion a nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor fel a ganlyn;

- Deilliant 1: Mwy o blant meithrin / plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

- Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn / plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam yn eu haddysg statudol i'r llall
- Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol
- Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Er mwyn cyfrannu’n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru i sicrhau Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae gan y cais busnes a gyflwynwyd gan y Cyngor i Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru y gallu i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl sectorau ac i adlewyrchu datblygiadau tai newydd ar raddfa fawr sydd yn yr arfaeth dros y 5-10 mlynedd nesaf. Wrth wneud hynny, bydd hyn yn creu ac yn gwneud lle ar gyfer galw ychwanegol am addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Bro Morgannwg 2011-2026 yn darparu’r fframwaith polisi cynllunio lleol ar gyfer Bro Morgannwg ac fe’i mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2017. Cafodd ysgol newydd ar y Tir i’r gogledd orllewin o ddyraniad preswyl Fferm y Darren ei chynnwys fel rhan o’r CDLl.

Ym mis Rhagfyr 2014, cyflwynodd y datblygwr tai Taylor Wimpey gais amlinellol i ddatblygu’r safle ar gyfer 475 o unedau. Ym mis Ionawr 2016 rhoddwyd caniatâd cynllunio i ailddatblygu’r safle mewn modd cynhwysfawr gydag amodau a Chytundeb Adran 106 a oedd yn cynnwys dyrannu safle 2ha at ddibenion addysg. O ran y sefyllfa ym mis Hydref 2022, mae 135 o anheddau wedi cael eu hadeiladu ac wedi’u meddiannu. Mae 44 o anheddau’n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Bydd cyfanswm o oddeutu 475 o anheddau’n cael eu hadeiladu erbyn 2026-27. Byddai tir i’r gogledd orllewin o Fferm y Darren yn cael ei wasanaethu gan yr ysgolion canlynol yn seiliedig ar eu dalgylchoedd presennol:

- Ysgol Gynradd y Bont-faen – Cyfrwng Saesneg
- Ysgol Iolo Morganwg – Cyfrwng Cymraeg (Cynradd)
- Ysgol Gynradd Gatholig Sain Helen - Enwadol
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant - Enwadol
- Ysgol y Bont-faen – Cyfrwng Saesneg (Pob oed)
- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg – Cyfrwng Cymraeg (Uwchradd)
- Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn – Enwadol
- Ysgol Y Deri – Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion o fewn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u harfogi â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Fe wnaeth Cabinet y Cyngor awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal **ymgynghoriad rhwng 27 Chwefror 2023 ac 11 Ebrill 2023** ar gynnig i ddarparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion i ateb y galw yn y dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg trwy ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025.

## 1.2. Y CYNNIG

Mae'r cynnig yn un i ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025.

Mae'r cynnig hwn yn cael ei ystyried dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti ysgol o leiaf 25%. Bydd ysgol newydd â 420 o leoedd ar Dir i'r gogledd orllewin o Fferm y Darren yn cael ei chynnwys fel rhan o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r Cyngor. Cynigir y byddai Ysgol Iolo Morganwg yn symud i mewn i'r adeilad newydd erbyn mis Medi 2025 i wneud lle i'r capasiti uwch. Byddai'r ysgol newydd hefyd yn arwain at gynyddu'r lleoedd meithrin o 66 i 96 o leoedd rhan-amser.

Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, nid hyn yn ddarostyngedig i'r broses statudol gan y byddai'r trosglwyddiad o fewn 1.609344 cilomedr. Mae safle'r ysgol newydd 1.3km o'r ysgol bresennol. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau lleol a'u bod yn adlewyrchu'r galw. Mae angen ateb y galw yn y dyfodol o'r datblygiadau tai newydd yn y Bont-faen a dalgylch ehangach yr ysgol, yn ogystal â'r galw uwch am addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai adeilad newydd â 420 o leoedd ar gyfer yr ysgol yn gwneud lle i'r cynnydd rhagamcanol yn niferoedd y disgyblion o'r datblygiad newydd. Byddai'r capasiti uwch hefyd yn gwneud lle i'r cynnydd rhagamcanol yn nifer y rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i gyrraedd y targedau yn CSCA y Cyngor.

## 1.3. YMATEB I'R CYNNIG

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgyngoriadau'n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sydd dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag

ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r cyfle i chi ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu hystyried pan fydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu sut i fwrw ymlaen.

Ceir rhagor o wybodaeth am sesiynau ymgynghori â rhanddeiliaid sydd yn yr arfaeth a sut y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad yn Adran 7 "Cynnwys rhanddeiliaid ac ymateb i'r ymgynghoriad". Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys dolen i'r arolwg ar-lein ac yn cynnwys ffurflen ymateb os hoffech gyflwyno ymateb drwy'r post. Mae'r ffurflen ymateb i'w chael dan Adran 8.

**Dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'n hanfodol bod unrhyw adborth yn dod i law erbyn 11 Ebrill 2023 er mwyn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ni ellir ystyried unrhyw eitemau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw.**

# 2. Y CYNNIG

## 2.1. CRYNODEB

- Mae'r cynnig yn un i ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025. Hefyd, mae'r cynnig yn cynnwys cynyddu'r ddarpariaeth feithrin i 96 o leoedd rhan-amser a chanolfan addysg oedolion a throchi iaith Gymraeg ar gyfer disgyblion cynradd o 7 oed i fyny, yn ogystal â chynnig Rhaglenni Dysgu Oedolion a Dysgu Cymunedol ar ôl oriau ysgol.
- Mae'r cynnig hwn yn cael ei ystyried dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol. Yr elfen o fewn yr adran hon sy'n berthnasol yw'r cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol o leiaf 25%.

## 2.2. BETH FYDDAI HYN YN EI OLYGU?

Byddai'r cynnig yn golygu adeiladu adeilad ysgol gynradd â 420 o leoedd ar dir Adran 106 o fewn datblygiad tai 'Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Glos y Darren'. Yn dilyn cwblhau'r adeilad, byddai Ysgol Iolo Morganwg yn trosglwyddo i'r safle newydd. Byddai hyn yn darparu 210 o leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol a 30 o leoedd meithrin. Byddai hyn yn cefnogi twf mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, gan ategu CSCA y Cyngor a strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru.

Byddai'r ysgol wrth galon y gymuned a byddai'n hyrwyddo addysg Gymraeg, gan wella mynediad at y Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd. Byddai'r cynnig hefyd yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer staff a dysgwyr Ysgol Iolo Morganwg. Byddai'r lleoliad newydd hefyd yn gwella mynediad o bob rhan o Orllewin y Fro gyda chysylltiadau cludiant gwell.

I gefnogi ehangiad addysg cyfrwng Cymraeg yn y Bont-faen a ledled y Fro, byddai cyfleuster ychwanegol yn cael ei sefydlu ar y safle hefyd i gefnogi addysg oedolion a throchi ieithyddol ar gyfer hwyrddyfodiaid (disgyblion cynradd 7+ oed) i addysg cyfrwng Cymraeg.

Byddai uned hunangynhaliol yn darparu lleoliadau trochi cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion cynradd 7 oed a throsodd, yn ogystal â chynnig gwersi Cymraeg i oedolion ar ôl oriau ysgol, yn enwedig y rhai sy'n byw o fewn y datblygiad. Mae gan y Cyngor uned drochi bresennol yn y Barri; fodd bynnag, byddai'r uned arfaethedig mewn lleoliad gwell i wasanaethu gorllewin y Fro gan leihau'r pellter y byddai angen i deithwyr sy'n byw yn yr ardal hon ei deithio i fynychu canolfan yn yr Awdurdod. Byddai gan y ganolfan drochi gapasiti ar gyfer 12 o leoliadau trochi.

### Y DALGYLCH

Ni chynigir y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i ddalgylch Ysgol Iolo Morganwg o ganlyniad i'r cynnig hwn.

**Ffigur 1: Dalgylch Ysgol Iolo Morganwg**




- Fodd bynnag, mae'r holl drefniadau ar gyfer dalgylchoedd ac ysgolion sy'n bwydo ym Mro Morgannwg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad ynghylch trefniadau derbyn yn y dyfodol.

## 2.3. PAM YDYM NI'N CYNNIG Y NEWIDIADAU?

### Y GALW AM DDARPARIAETH GYMRAEG

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi gweld cynnydd mewn dysgwyr dwyieithog ac mae'n amcanu at barhau â'r duedd hon i sicrhau bod digon o gapasiti dros y tymor hir. Mae Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sy'n amcanu at sicrhau y gellir ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg dros y tymor hir. Yn unol â strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chan gyfrannu at ei tharged uchelgeisiol i sicrhau Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu mewn poblogrwydd yn y Fro a bu twf sylweddol dros y 18 mlynedd ddiwethaf ers agor Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae hyn wedi bod yn amlwg wrth gwblhau'r prosiect 'Trawsnewid Addysg Uwchradd yn y Barri' yn ddiweddar sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o 1151 i 1450. Mae'r ysgol uwchradd Gymraeg yn gwasanaethu ardal yr Awdurdod yn ei

chyfanrwydd a byddai disgyblion cynradd o Ysgol Iolo Morganwg sy'n ceisio addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel uwchradd yn cael lle yn Ysgol Bro Morgannwg.

Hefyd, mae Ysgol Dewi Sant yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Llanilltud Fawr a agorodd ym mis Medi 2011. Yn y flwyddyn gyntaf ar ôl ei hagor, roedd y dosbarth derbyn yn cynnwys 3 disgybl yn unig. 7 mlynedd yn ddiweddarach, roedd goralw am leoedd ym mis Medi 2018 gyda 32 o ymgeiswyr am 30 o leoedd. Yn ddiweddar, mae ysgol feithrin Gymraeg breifat wedi cael ei symud i adeilad modiwlar newydd yn 2021 ar safle Dewi Sant i ddarparu cysylltiadau gwell â'r ysgol gynradd a sicrhau parhad yn y niferoedd sy'n ymgymryd â lleoedd cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cynnig yn cynnwys canolfan dysgu oedolion ac addysg drochi. Prif nod addysg drochi i hwyrddyfodiaid yng Nghymru yw darparu cyfleoedd i ddisgyblion cynradd nad ydynt yn siarad Cymraeg gael mynediad hwyr i addysg Gymraeg. Yn gyffredinol, ledled Cymru, mae disgyblion yn manteisio ar y ddarpariaeth strwythuredig hon ar ôl 7+ oed. Y nod wrth gynnig dysgu oedolion o fewn y ganolfan yw gwella'r niferoedd sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach a hynny y tu allan i oriau ysgol.

## ADEILAD SY'N ADDAS AR GYFER Y DIBEN

Mae Ysgol Iolo Morganwg yn cynnwys prif adeilad ysgol Fictoraidd, bloc ffreutur a 3 uned storio a adeiladwyd rhwng 1900 a 1920. Gosodwyd tri chaban rhwng 2002 a 2010. Mae'r ddau gaban mwyaf newydd (Blociau 3 a 4) mewn cyflwr boddhaol ac ystyrir bod un o'r unedau storio gwreiddiol yn foddhaol hefyd. Fodd bynnag, mae gweddill yr adeiladau gan gynnwys prif adeilad yr ysgol wedi cael eu categoreiddio fel adeiladau sydd mewn cyflwr gwael yn dilyn arolwg diweddar o'u cyflwr a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022. Yn ogystal â chyflwr gwael yr adeiladau, dylid ystyried y canlynol;

- Mae'r ysgol ar safle cyfyng iawn ar oleddf gyda lle hamdden awyr agored cyfyngedig a dim gobaith o gynyddu'r safle'n sylweddol i gyrraedd safonau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Ystafelloedd dosbarth o faint afreolaidd sy'n golygu bod gan y grwpiau blwyddyn i gyd rai o feintiau gwahanol yn hytrach na bod yr ystafelloedd dosbarth yn dilyn maint safonol.

Mae trosglwyddo Ysgol Iolo Morganwg a chynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol o 210 i 420 yn cynnig model mwy effeithlon a chynaliadwy nag agor ysgol ychwanegol â 210 o leoedd i wasanaethu ardal Gorllewin y Fro a datblygiad Gerddi Clare. Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â materion gyda'r adeilad presennol, megis y lle awyr agored cyfyng a'r ystafelloedd dosbarth o faint afreolaidd. Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad modern o ansawdd da a fyddai'n gallu rhoi cymorth i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.

Bydd y cynnig yn sicrhau bod yr adeilad newydd yn cyrraedd safonau adeiladau modern i leihau'r costau cylchol a bod yn garbon sero net o ran ei weithrediad. Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safonau Rhagoriaeth BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) hefyd.

## DATBLYGIADAU TAI NEWYDD

O fewn dalgylch presennol Ysgol Iolo Morganwg mae 5 datblygiad tai ar raddfa fawr (10 annedd neu fwy). Mae'r datblygiad preswyl mwyaf yn ymwneud â thir i'r gogledd orllewin o Fferm y Darren (Gerddi Clare) sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer 475 o unedau. Mae datblygiad y safle wedi dechrau'n barod gyda 135 o anheddau eisoes wedi'u meddiannu ac unrhyw alw sy'n codi am leoedd ar gyfer disgyblion yn cael ei ateb gan gapasiti presennol ysgolion yn yr ardal. Fodd bynnag, mae 44 o unedau'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd ac mae 296 o unedau heb gael eu hadeiladu. Ystyrir y bydd y safle'n cael ei gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf. Hefyd, byddai'r 4 datblygiad arall yn arwain at gyflwyno 247 o unedau pellach yn y 6 blynedd nesaf.

Ar y cyfan rhagfynegir y bydd 56 o ddisgyblion meithrin a 154 o ddisgyblion cynradd o ganlyniad i'r datblygiadau preswyl arfaethedig yn nalgylch yr ysgol. Yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol mae 13.18% o'r boblogaeth disgyblion yn nalgylch yr ysgol yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn arwain at 7 o leoedd meithrin newydd ac 20 o leoedd cynradd newydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

# 3. GOBLYGIADAU'R CYNNIG

## 3.1. GWYBODAETH AM YR YSGOL

Mae'r tabl isod yn amlinellu gwybodaeth am gapasiti Ysgol Iolo Morganwg ar hyn o bryd:

**Tabl 1: Gwybodaeth am Ysgol Iolo Morganwg**

| Ysgol | Math o ysgol | Categori iaith | Nifer derbyn | Capasiti'r ysgol | Nifer ar y gofrestr | Ystod oedran | Nifer y lleoedd meithrin rhan-amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Iolo Morganwg | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg | 30 | 210 | 186 | 3 - 11 | 66 |

Byddai'r holl dderbyniadau i Ysgol Iolo Morganwg trwy Banel Derbyn yr Awdurdod Lleol fel ysgol Gymunedol.

## Y GALW AM LEOEDD YN YR YSGOL

Mae'r tabl canlynol yn darparu'r nifer ar y gofrestr ym mis Ionawr bob blwyddyn o'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a data rhagamcanol ar gyfer niferoedd ar y gofrestr.

**Tabl 2: Gala Rhagamcanol ar gyfer Disgyblion yn Ysgol Iolo Morganwg**

| Ysgol | Ysgol ar hyn o bryd | Ionawr 2018 | Ionawr 2019 | Ionawr 2020 | Ionawr 2021 | Ionawr 2022 | Amcanestyniad 2023/24 | Amcanestyniad 2024/25 | Amcanestyniad 2025/26 | Amcanestyniad 2026/27 | Amcanestyniad 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Iolo Morganwg | 210 | 155 | 150 | 140 | 145 | 186 | 204 | 207 | 228 | 223 | 208 |

Mae'r tablau isod yn dynodi'r niferoedd ar y gofrestr (NAG) ar hyn o bryd ar draws yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg sy'n rhannu'r un dalgylch ag Ysgol Iolo Morganwg.

**Tabl 3: Gwybodaeth am Ysgolion Cyfagos**

| Ysgol | Nifer Derbyn | Capasiti'r Ysgol | Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Cyfanswm NAG | Cyfanswm Lleoedd Gwag |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanbedr-y-fro | 27 | 189 | 18 | 11 | 18 | 22 | 27 | 25 | 28 | 149 | 40 |
| Dewi Sant | 30 | 210 | 27 | 25 | 30 | 31 | 31 | 30 | 26 | 200 | 10 |
| Saint-y-brid | 30 | 210 | 29 | 29 | 30 | 30 | 30 | 30 | 27 | 205 | 5 |
| Sain Nicolas | 18 | 126 | 18 | 14 | 15 | 20 | 18 | 14 | 17 | 116 | 10 |
| Llansanwyr | 30 | 210 | 26 | 29 | 31 | 29 | 30 | 32 | 28 | 205 | 5 |
| Y Bont-faen | 30 | 210 | 34 | 29 | 31 | 43 | 24 | 31 | 32 | 224 | -14 |
| Llangan | 15 | 111 | 14 | 15 | 16 | 16 | 15 | 20 | 10 | 106 | 5 |
| Pendeulwyn | 30 | 210 | 30 | 23 | 25 | 29 | 29 | 30 | 31 | 197 | 13 |
| Trwyn y De | 30 | 210 | 14 | 6 | 13 | 8 | 11 | 17 | 11 | 80 | 130 |
| Sain Tathan | 30 | 210 | 27 | 29 | 27 | 25 | 20 | 26 | 29 | 183 | 27 |
| Llanfair | 20 | 140 | 16 | 19 | 19 | 21 | 18 | 20 | 16 | 129 | 11 |
| Sain Helen | 44 | 308 | 36 | 46 | 43 | 43 | 30 | 43 | 41 | 282 | 26 |
| Cyfanswm | 334 | 2,344 | 289 | 275 | 298 | 317 | 283 | 318 | 296 | 2,076 | 268 |
| Lleoedd ar gael mewn grwpiau blwyddyn | - | - | 45 | 59 | 36 | 17 | 51 | 16 | 38 | - | - |

O ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, Ysgol Iolo Morganwg yw'r unig ysgol Gymraeg sy'n gwasanaethu disgyblion yn y dalgylch. Mae hyn yn golygu bod 24 o leoedd cyfrwng Cymraeg ar gael yng ngorllewin y Fro a wasanaethir o fewn dalgylch Ysgol Iolo Morganwg. O ran lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg mae 268 o leoedd ar gael. Er bod digon o gapasiti ar hyn o bryd ar gyfer lleoedd cyfrwng Cymraeg a Saesneg o fewn y dalgylch rhagamcanir erbyn 2025/26 na fydd capasiti digonol ar gyfer lleoedd cyfrwng Cymraeg. Nodir bod yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn disgwyl gostyngiad yn y galw erbyn 2028/29;

fodd bynnag, mae gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru bolisïau i wella'r nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg y rhagwelir y byddant yn gwrthbwyso'r dirywiad hwn. Mae creu galw newydd am addysg cyfrwng Cymraeg yn ofyniad deddfwriaethol i Awdurdodau Lleol ac yn un o ganlyniadau allweddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd y Cyngor.

Mae tystiolaeth yn dangos, lle mae'r Cyngor wedi darparu capasiti cyfrwng Cymraeg ychwanegol, bod nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu. Enghraifft o hyn yw Ysgol Dewi Sant, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Llanilltud Fawr a agorodd ym mis Medi 2011. Yn y flwyddyn gyntaf ar ôl ei hagor, roedd y dosbarth derbyn yn cynnwys 3 disgybl. O fewn 7 mlynedd, roedd goralw am leoedd ym mis Medi 2018 gyda 32 o ymgeiswyr am 30 o leoedd.

Fodd bynnag, nodir na fydd darparu cynnydd yn nifer y lleoedd sydd ar gael yn gwarantu cynnydd yn y galw. Felly, un o elfennau allweddol y cynnig yw mynd ati'n frwd i annog rhieni/gofalwyr i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg trwy gynnwys canolfan drochi iaith Gymraeg fel rhan o ddatblygu'r ysgol newydd. Uned hunangynhaliol o fewn yr ysgol arfaethedig fyddai hon a fyddai'n darparu lleoliadau trochi cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion cynradd 7 oed a throsodd, yn ogystal â chynnig Rhaglenni Dysgu Oedolion a Chymunedol ar ôl oriau ysgol.

## 3.2. DEILLIANNAU ADDYSGOL

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod y dysgu a'r addysgu o ansawdd da, a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion ac i roi cymorth i wella ysgolion.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Un o gyrff y Goron ydyw, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond mae'n cael ei chyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Sefydlwyd Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru (CACCDC) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio'r holl ysgolion ym Mro Morgannwg.

Mae ysgolion yn cael eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol i arolygu ysgolion. Diben arolygiad yw adnabod nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyrhaeddir gan eu disgyblion.

### ADRODDIAD ESTYN (MEHEFIN 2022)

Cafodd Ysgol Iolo Morganwg ei harolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2022. Mae'r adroddiad yn crynhoi fel a ganlyn:

Mae Ysgol Iolo Morganwg yn cynnig amgylchedd ddysgu ysgogol a hapus sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig a chynnes. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu disgyblion. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddatblygu fel dinasyddion cydwybodol, hyderus a dwyieithog.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn o'u mannau cychwyn, a cheir darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ddisgyblion lais cryf yn yr ysgol, ac maent yn ffynnu yn eu rolau fel anogwyr dysgu. Maent yn cyfrannu'n dda at eu themâu tymhorol, ac yn dyfalbarhau'n arbennig o dda yn ystod eu gweithgareddau. Mae'r disgyblion yn mwynhau ymchwilio wrth ddarganfod gwybodaeth o fewn eu cynefin yn lleol, er enghraifft wrth ddysgu am daith y bananas o'r Caribî i'r Barri.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac mae ei bwrlwm a'i harweiniad o ran datblygu'r cwricwlwm newydd yn allweddol. Caiff y cwricwlwm ei ddylunio o gwmpas gwerthoedd newydd yr ysgol a'r weledigaeth gytûn. Mae staff yn darparu profiadau dysgu cyffrous sy'n galluogi'r disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan a dysgu'n effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fwynhad y disgyblion o'u profiadau dysgu ac ar eu cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu'n estynedig ymhob dosbarth. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn elwa o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gofyn cwestiynau heriol ynglŷn â phenderfyniadau pan fydd angen. Maent yn falch o gynnydd y disgyblion wrth iddynt ddatblygu'n ddysgwyr dwyieithog, hyderus.

### ARGYMHELLION

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 Sicrhau bod y cynllunio ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn ddigon trylwyr ym mhob dosbarth
- A2 Darparu adborth benodol er mwyn i ddisgyblion wybod yn iawn beth yw eu camau nesaf i wella ansawdd eu gwaith
- A3 Cryfhau a miniogi cynllun datblygu'r ysgol er mwyn gallu mesur effaith y camau gwella ar y ddarpariaeth.

Mae adroddiad arolygu Ysgol Iolo Morganwg i'w gael yma:

https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-08/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Iolo%20Morganwg%202022.pdf

## 3.3. EFFAITH FWRIADEDIG AR DDEILLIANNAU ADDYSG

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025. Byddai'r ysgol yn symud i mewn i adeilad ysgol newydd i wneud lle ar gyfer y capasiti uwch yma.

## SAFONAU A CHYNNYDD

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn gwrando'n astud ac yn rhyngweithio'n effeithiol gydag oedolion gan ddatblygu medrau llefaredd, iaith a chyfathrebu cadarn.
- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau llafar yn fedrus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaeth ddosbarth gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed.
- Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd
- Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Dangosant ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd elfennau atalnodi a chywirdeb wrth sillafu.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cadarn â'u medrau mathemateg a rhifedd.
- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn fedrus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn rheoli teclyn rhaglenadwy yn hyderus.

Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar safonau gan y bydd cynyddu capasiti'r ysgol yn arwain at adleoli'r ysgol i adeilad newydd ar safle Gerddi Clare. Mae'r amgylchedd dysgu a'r seilwaith, gan gynnwys cyfleusterau ac ardaloedd dysgu dan do ac awyr agored, yn elfennau allweddol o ran cefnogi athrawon a dysgwyr. Adlewyrchir hyn yn nodau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) ac uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer ysgolion Cymunedau Dysgu Cynaliadwy â mynediad llawn at dechnolegau modern.

Lluniwyd y FfCD er mwyn sicrhau bod llythrennedd, cymhwysedd a sgiliau digidol yn cael eu datblygu o oedran cynnar. "Cymhwysedd Digidol yw'r set o sgiliau a gwybodaeth ac agweddau sy'n galluogi defnydd hyderus, creadigol a beirniadol o dechnolegau a systemau. Mae'n hanfodol i ddysgwyr er mwyn iddynt fod yn wybodus, yn alluog a meddu ar y potensial i fod yn llwyddiannus yng nghymdeithas heddiw." Bydd angen i syniadau ar gyfer tasgau yn yr ystafell ddosbarth "newid a datblygu i adlewyrchu technolegau newydd a'r profiad ac arbenigedd cynyddol ym maes dysgu digidol". O fis Medi 2022, bydd lleoliadau ac ysgolion yn cyflawni cymhwysedd digidol ar sail drawsgwricwlaidd. Byddant:

- Wedi gwreiddio cymhwysedd digidol ar draws cwricwlwm yr ysgol
- Yn parhau i addasu dulliau presennol o ran cymhwysedd digidol ar gyfer y cwricwlwm newydd
- Yn parhau i adolygu a mireinio'u dull o ran cymhwysedd digidol.

Mae darparu'r adnoddau a'r technolegau priodol i sicrhau ein bod yn cynorthwyo dysgwyr i gyflawni amcanion y fframwaith yn ystyriaeth bwysig felly wrth ddatblygu ein cynlluniau ar

gyfer adeiladau ysgolion newydd fel rhan o'n strategaeth ar gyfer rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r Cyngor.

## LLES AC AGWEDDAU AT DDYSGU

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae lles ac agweddau cadarnhaol y disgyblion at ddysgu yn gryfder amlwg.
- Mae cefnogi lles emosiynol y disgyblion yn flaenoriaeth yn yr ysgol ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn deall sut i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd sy'n effeithio ar eu lles emosiynol
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth o'r angen i gadw'n heini a bwyta'n iach ac maent yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i wneud dewisiadau iach yn eu bywyd yn yr ysgol a thu hwnt
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd allweddol
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau arweinyddiaeth o ddifri, gyda disgyblion yn aelodau brwd o'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco, y llysgenhadon, y *Criw Calon Cymru* a'r dewiniaid digidol.

O ganlyniad i'r cynnig, bydd yr ysgol yn cael ei throsglwyddo i adeilad ysgol newydd ar safle Gerddi Clare. Byddai gan yr ysgol newydd ardaloedd chwarae caled a meddal sy'n fwy o faint ac yn fwy hygyrch i wella lles disgyblion. Byddai'r ysgol newydd hefyd yn cynnwys ardaloedd ymneilltuo a mannau dysgu ADY i helpu i wella lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

## ADDYSGU A PHROFIADAU DYSGU

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n feddylgar ar gyfer profiadau dysgu diddorol sy'n adlewyrchu ethos yr ysgol, ac yn annog disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus.
- Mae athrawon yn meddwl yn ofalus am bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, sydd bellach wedi'u hymgorffori yng ngwerthoedd yr ysgol, a sut y gellir adlewyrchu'r rhain wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm
- Mae perthnasoedd da rhwng y staff a'r disgyblion. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n gydwybodol a theyrngar am eu disgyblion
- Ar y cyfan, mae'r athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso elfennau o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn fedrus ar draws y cwricwlwm.
- Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn cynnig adborth adeiladol i'r disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith, yn enwedig ar lafar.

Byddai'r cynnig yn arwain at addysgu a phrofiadau dysgu gwell trwy ddarparu cyfleusterau addysg modern. Mae hyn yn cynnwys mannau ymneilltuo ac ardaloedd dysgu ADY, seilwaith digidol gwell drwy adeilad newydd yr ysgol i gyd sy'n adlewyrchu safonau'r cwricwlwm digidol. Ar ben hynny bydd dyluniad yr adeilad yn cefnogi addysgeg effeithiol trwy gyfleusterau gwell, meintiau ystafelloedd dosbarth safonedig a thrwy ddarparu adeilad a mannau awyr agored sy'n adlewyrchu'r gofynion o ran lle ym Mwletin Adeiladu 99.

## GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae'r holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus i ddatblygu ethos hapus, gofalgar a diogel yn yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd sy'n cyfrannu at ddatblygu medrau ysbrydol a moesegol disgyblion yn dda, ac yn cynorthwyo disgyblion i ymchwilio i faterion sy'n gysylltiedig â goddefgarwch a pharch at bobl eraill
- Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys rhaglenni cefnogi pwrpasol
- Mae gweithdrefnau llwyddiannus ar waith i olrhain a monitro cynnydd disgyblion
- Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymgymryd â sesiynau lles corfforo
- Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn hybu'r Gymraeg ac yn ymwreiddio Cymreictod i ddisgyblion yn llwyddiannus
- Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion drwy drefniant cadarn wrth gydweithio'n agos â rhieni ac asiantaethau allanol.

O ganlyniad i'r cynnig, bydd yr ysgol yn cael ei throsglwyddo i adeilad ysgol newydd ar safle Gerddi Clare. Byddai gan yr ysgol newydd ardaloedd chwarae caled a meddal sy'n fwy o faint ac yn fwy hygyrch i wella lles disgyblion. Byddai'r ysgol newydd hefyd yn cynnwys ardaloedd ymneilltuo a mannau dysgu ADY i helpu i wella lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Ar ben hynny, mae dyluniad yr adeilad newydd yn cynnig trefniadau gwell ar gyfer newid o ddysgu dan do i ddysgu yn yr awyr agored ar gyfer grwpiau blwyddyn y babanod.

## ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol
- Mae trefniadau hunanwerthuso'r ysgol yn effeithiol
- Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd i drefnu a gweithredu gweithgareddau er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau cytûn.
- Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau
- Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yr ysgol yn rheoli eu cyllideb yn dda
- Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn fedrus

- Mae perthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae arweinwyr yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol i hysbysu rhieni am ddigwyddiadau yn rheolaidd
- Darperir cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i staff, sy'n cysylltu'n effeithiol â deilliannau gweithgareddau gwerthuso a blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Bydd adeilad newydd ar gyfer yr ysgol yn arwain at gael gwared ar y cyfyngiadau gydag adeiladau a thir presennol yr ysgol gan arwain at le mwy dichonadwy i staff a dysgwyr.

## 3.4. DARPARIAETH GYMRAEG

Mae Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sy'n amcanu at sicrhau bod galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn gallu cael ei ateg yn y tymor hir yn unol â strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chan gyfrannu at ei tharged uchelgeisiol i sicrhau Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd y cynnig yn arwain at 210 o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol, 30 o leoedd meithrin ychwanegol a chanolfan addysg oedolion a throchi iaith Gymraeg.

Bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i'r ysgol gyrraedd ei llawn dwf a bydd y ffrwd dderbyn yn cael ei newid o fis Medi 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd lle ychwanegol yn yr ysgol a allai gael ei ddefnyddio gan y gymuned i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned.

Byddai'r ysgol wrth galon y gymuned a byddai'n cefnogi twf yn y galw am addysg Gymraeg, gan wella mynediad at y Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd. Mae darpariaeth Dysgu Cymraeg y Cyngor i oedolion yn cael ei hyrwyddo ledled Bro Morgannwg hefyd gydag ystod eang o gyrsiau ar gael o lefel dechreuwyr i lefel hyfedredd trwy gynnwys uned drochi sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

## 3.5. DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Nid oes gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbenigol (CAA) gysylltiedig; mae'n rhoi cymorth arbenigol i blant sydd ag anghenion dynodedig mewn lleoliad cynhwysol o fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol berthynas weithio dda ag Ysgol Y Deri, Ysgol Arbennig y Cyngor, sy'n darparu gwasanaethau allgymorth i gefnogi'r ysgol.

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am anghenion disgyblion ar hyn o bryd.

**Tabl 4: Gwybodaeth ADY ar gyfer Ysgol Iolo Morganwg**

| *2020 - 2022* | | *Ysgol Iolo Morganwg* | *ALI* | *Cymru* |
|---|---|---|---|---|
| Canran y Disgyblion ADY | Gweithredu gan yr Ysgol | 4% | 4.1% | 7.3% |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 4.3% | 4.3% | 6.1% |
| | Disgyblion â Datganiad | 0% | 0.5% | 2% |

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm wedi'i dargedu a phwrpasol sy'n ymateb i alluoedd y plentyn unigol ac yn sicrhau bod yr holl blant ac arnynt angen cymorth ychwanegol yn cael eu hintegreiddio ar draws pob maes o fewn y cwricwlwm.

Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn cynnwys mannau ymneilltuo ar gyfer mannau dysgu ADY. O fewn y dyluniad ehangach i ddiogelu'r cynnig at y dyfodol, byddai capasiti i gynnwys canolfan adnoddau arbenigol yn y dyfodol yn bosibl oherwydd arwynebedd mwy'r safle. Byddai hyn yn amodol ar broses ymgynghori ar wahân pe bai'r cynnig yn cael ei gyflwyno gerbron.

Byddid yn parhau â darpariaeth gyfredol yr ysgol bresennol yn yr adeilad newydd.

## 3.6. EFFEITHIAU AR YSGOLION ERAILL

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol gan na chynigir unrhyw newid i'r dalgylch presennol.

## 3.7. TIR AC ADEILADAU

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg weledigaeth i ddarparu'r cyfleusterau gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Fro i gefnogi eu dysgu. Mae arolwg o gyflwr adeiladau'n cynnwys asesiad gweledol o'r holl rannau o adeiladau sydd yn y golwg i adnabod diffygion sylweddol ac eitemau sydd wedi mynd yn adfeiliedig. Cynhaliwyd arolwg diweddaraf y Cyngor o gyflwr yr ysgol yn 2022.

**Tabl 5: Adroddiad ar Gyflwr Ysgol Iolo Morganwg 2022**

| Ysgol | Math o ysgol | Cyflwr adeilad yr ysgol | Cost atgyweiriadau a nodwyd |
|---|---|---|---|
| Ysgol Iolo Morganwg | Cymunedol | C - Gwael | £798,590 |

Byddai'r lleoliad newydd arfaethedig yn darparu:

- Amgylchedd dysgu o ansawdd da ar gyfer disgyblion sy'n gyforiog o TG ac sy'n diwallu anghenion cwricwlwm addysgol yr 21ain Ganrif
- Mynediad dirwystr rhwng yr holl ardaloedd mewnol ar gyfer plant a staff gan y bydd yr ysgol newydd wedi'i chynnwys o fewn un adeilad
- Trefniadau diogelu gwell a safle mwy diogel i ddisgyblion a staff
- Cyfleusterau chwaraeon awyr agored gwell ar gyfer defnydd gan ddisgyblion a'r gymuned
- Mynediad llawn ar gyfer y gymuned gyfan gyda mynediad llawn ar gyfer pobl anabl at ardaloedd mewnol ac allanol.

Mae adeilad presennol Ysgol Iolo Morganwg wedi'i leoli ar safle ag arwynebedd o oddeutu 0.58ha oddi ar Broadway yn y Bont-faen. Mae'r safle'n union drws nesaf i Ysgol Gynradd y Bont-faen, ysgol gymunedol 3-11 cyfrwng Saesneg.

Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud ynglŷn â defnyddio'r safle a'r adeiladau yn y dyfodol. Pe bai'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen yn cael eu rhoi ar waith, byddai'r holl opsiynau'n cael eu hystyried, gan gynnwys dynodi'r safle'n un nad oes mo'i angen mwyach neu archwilio defnyddiau addysgol eraill. Bydd unrhyw weithgarwch i ddatblygu'r safle yn y dyfodol yn cael ei reoli yn unol â pholisi perthnasol y Cyngor a'i rwymedigaethau statudol ac ymddiriedol.

Mae gan yr adeilad presennol arwynebedd mewnol o 1,117.05m2. Mae hyn islaw'r arwynebedd gros argymelledig a nodir ym Mwletin Adeiladu 99: Fframwaith Adeiladu ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd, sef 1,286m2. Byddai'r adeilad newydd yn cyd-fynd â Bwletin Adeiladu 99 a byddai ganddo ddarpariaeth well ar gyfer chwaraeon awyr agored ar ffurf ardaloedd caled a meddal.

## 3.8. CYLLID

### CYLLID CYFALAF

Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig hwn, byddai buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael ei wneud i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Iolo Morganwg. Byddai'r Cyngor yn rheoli'r broses a byddai corff llywodraethu, staff, rhieni a disgyblion Ysgol Iolo Morganwg yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau. Byddai'r Cyngor yn gyfrifol am reoli'r gwaith adeiladu hefyd.

Amcangyfrifir mai £12 miliwn yw cyfanswm y cyllid cyfalaf a fyddai'n ofynnol i adeiladu ysgol newydd. Disgwylir i'r Cyngor gael £7.8 miliwn mewn cyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru trwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer y prosiect hwn.

### CYLLID REFENIW

Bydd angen cyllid refeniw ychwanegol i gwrdd â chostau gweithredol yr ysgol newydd. Bydd costau refeniw ychwanegol y niferoedd disgyblion uwch yn cael eu hariannu trwy'r fformiwla cyllid ysgolion sy'n dyrannu'r mwyafrif o gyllid i ysgolion ar sail niferoedd y disgyblion.

Gall darparu cyllid ar gyfer rhaglenni trochi i newydd-ddyfodiaid o bob oed fod yn her. Ers 2014/15 mae darparu cyrsiau i hwyrddyfodiaid wedi bod yn ddibynnol ar glustnodi cyllid gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ddatblygu rhaglen trochi i newydd-ddyfodiaid o bob oed. Un o'r prif faterion sy'n wynebu'r ddarpariaeth hon yw ei chost gymharol uchel oherwydd niferoedd cymharol isel y disgyblion sy'n cael y gwasanaeth. Mae darparu cyrsiau o'r fath yn galw am fuddsoddiad refeniw, ac yn y flwyddyn ariannol bresennol mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid grant penodol i awdurdodau gynnig amdano mewn perthynas â rhoi darpariaeth drochi i newydd-ddyfodiaid o bob oed. Ceir disgwyliad y bydd y cyllid hwn yn parhau yn y dyfodol hyd y gellir rhagweld, ond yn y tymor hir byddai angen cyllid refeniw parhaus. Fodd bynnag, pan fo lleoedd sbâr yn y ganolfan drochi gall y rhain

wasanaethu'r ardal ranbarthol ehangach lle mae diffyg a fyddai'n cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol perthnasol i gwrdd â'r costau refeniw cysylltiedig.

## 3.9. ADNODDAU DYNOL

Ni ragwelir y byddai unrhyw effeithiau anffafriol i staff gan y byddent yn syml yn symud i adeilad newydd ar eu contractau presennol. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth yn yr ysgol gan y byddai niferoedd disgyblion ychwanegol yn arwain at dwf mewn lefelau staffio yn y dyfodol. Pe bai'r symudiad i safle ysgol newydd yn digwydd, byddai angen i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ystyried cynnydd yn y strwythur staffio ar gyfer y niferoedd disgyblion ychwanegol o fis Medi 2025. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r strwythur staffio'n amodol ar ymgynghori'n llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle y bo angen.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r llywodraethwyr, y pennaeth a'r staff yn yr ysgol yn llawn gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth. Mae gan yr ysgol fynediad at bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor, gan gynnwys polisïau recriwtio. Mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cydweithio'n agos gyda llywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir yn digwydd gyda'r holl gyflogeion ynghylch pob mater sy'n ymwneud â newid yn lleoliad eu gweithle.

## 3.10. TREFNIADAU TRAFNIDIAETH A THEITHIO GAN DDYSGWYR

Mae goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fydd yn ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith. O dan y cynigion hyn nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac o ysgolion.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. "Y diffiniad o hyn yw mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Uwchradd. Caiff pellterau eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."

Nid yw'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant o oedran meithrin ac eithrio'r plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Felly byddai gan unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Ysgol Iolo Morganwg ar dyddiad trosglwyddo i'r safle newydd sy'n byw fwy na 2 filltir o safle newydd yr ysgol hawl i gludiant am ddim i'r ysgol. Ni fyddai gan unrhyw ddisgyblion nad ydynt yn byw 2 filltir o'r safle newydd mwyach o ganlyniad i'r adleoliad hawl mwyach i gludiant am ddim i'r ysgol.

Pe bai'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, byddai 108 o ddisgyblion yn byw fwy na 2 filltir i ffwrdd o safle newydd

yr ysgol. O'i gymharu mae 115 o ddisgyblion ar hyn o bryd sy'n byw fwy na 2 filltir i ffwrdd o safle presennol yr ysgol. Felly byddai adleoli'r ysgol yn arwain at ostyngiad o 7 disgybl y mae angen cludiant am ddim i'r ysgol arnynt. Dylid nodi bod y ffigwr hwn yn debygol o newid os rhoddir y cynnig ar waith ym mis Medi 2025 gan y byddai'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol wedi newid.

# 4. YSTYRIAETHAU ERAILL

## 4.1. MANTEISION POSIBL Y CYNNIG HWN O'I GYMHARU Â'R SEFYLLFA BRESENNOL

Byddai ehangu'r ysgol ac adleoli i adeilad ysgol newydd yn;

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach gan ddarparu ar gyfer poblogaeth fwy o ran disgyblion.
- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu creu ac ateb y galw yn y dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol a thargedau Llywodraeth Cymru.
- Darparu cyfleoedd dysgu oedolion trwy greu canolfan addysg oedolion a throchi iaith Gymraeg gan amcanu at wella'r nifer sy'n dewis addysg Gymraeg.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safon BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) a bydd yn garbon sero net o ran ei weithrediad.
- Mae'n cefnogi amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg 2022-2032.
- Cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru i sicrhau Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel rhan o Cymraeg 2050.

## 4.2. ANFANTEISION POSIBL Y CYNNIG HWN O'I GYMHARU Â'R SEFYLLFA BRESENNOL

- Gallai'r cynnig darfu ar reoli staff ac adnoddau yn ystod y broses o bontio i'r capasiti uwch.
- Bydd gan rai disgyblion sy'n byw'n agosach at safle presennol yr ysgol fwy o bellter i'w deithio. Efallai y bydd costau uwch yn gysylltiedig â hyn er bod yr ysgol o fewn un filltir i'r safle presennol.
- Mae potensial i'r cynnig darfu ar ddisgyblion a staff wrth iddynt ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd.

## 4.3. RISGIAU POSIBL Y CYNNIG HWN A MESURAU I LINIARU RISGIAU A ADNABUWYD

Mae'r Cyngor yn amcanu at sicrhau 65% o'r cyllid ar gyfer y cynnig o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn amodol ar gymeradwyo achos busnes a gyflwynir. Bydd gweddill y cyllid ar gyfer adeilad newydd yr ysgol yn cael ei ariannu gan y Cyngor.

Nes bod cyllid ar gyfer y prosiect wedi cael ei gymeradwyo mae risg i'r prosiect. I liniaru'r risg sy'n gysylltiedig â chyllid bydd y Cyngor yn llunio achos busnes cadarn i'w gyflwyno i

Lywodraeth Cymru gan gydweithio'n agos â'r adrannau perthnasol yn y Cyngor a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Hefyd, bydd y cyllid mewnol gan y Cyngor yn amodol ar broses cynnig Cyfalaf a bydd angen iddo gael ei ategu gan ddogfen gynnig gadarn a seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau cyllid.

## 4.4. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ymgynghori.

Proses sy'n bwrw golwg ar bolisi neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol) yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Bydd yr asesiad yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.

## 4.5. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i bennu unrhyw effeithiau y byddai'r cynnig hwn yn eu cael ar y gymuned leol. Aseswyd y cynnig ar draws nifer o fesurau.

Mae'r asesiad o'r effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Ar y cyfan, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn cynnal ac yn cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Byddai'r cynnig yn darparu dull cyson o 3-11 oed a fyddai'n hyrwyddo ac yn tanategu parhad a dilyniant i ddisgyblion, gan sicrhau ehangder a chydbwysedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau i ddisgyblion y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol ar hyn o bryd. Cynigir fel lleiafswm y byddai'r holl gyfleusterau presennol ar gyfer rhieni'r disgyblion a'r gymuned yn parhau gyda'r cynnig.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn Ysgol Iolo Morganwg yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion a'r galw amdanynt.

Gellir gweld yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn ei gyfanrwydd trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

*(dolen i gael ei mewnosod yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet)*

## 4.6. CYFRANIADAU AT LESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at yr un diben, mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant a phum ffordd o weithio y mae'n rhaid iddynt oleuo prosesau penderfynu cyrff cyhoeddus.

Mae'r cynnig wedi cael ei arfarnu o ran sut y mae'n cyfrannu at gyflawni dyheadau'r Ddeddf, y nodau llesiant, a'r ffyrdd o weithio. Nid yw hyn yn rhan o'r broses ymgynghori statudol ond ystyriwyd ei fod o fudd i gyd-fynd ag ysbryd y Ddeddf.

## 4.7. DEWISIADAU ERAILL A GAFODD EU HYSTYRIED

### OPSIWN 1: AGOR YSGOL GYNRADD CYFRWNG CYMRAEG NEWYDD Â 210 O LEOEDD AR SAFLE GERDDI CLARE

**Pam gafodd yr opsiwn hwn ei ddiystyru?**

Byddai Ysgol Iolo Morganwg yn aros fel y mae a byddai ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd â 210 o leoedd yn agor ar safle Gerddi Clare.

Nodwyd nad y model hwn oedd yr opsiwn a ffefrir am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r materion presennol gyda'r safle yn Ysgol Iolo Morganwg
- Byddai creu ysgol gynradd newydd yn arwain at fwy o straen ar gyllid ysgolion gyda gorbenion ychwanegol yn gysylltiedig ag ysgol ychwanegol
- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn darparu amgylcheddau dysgu modern yn Ysgol Iolo Morganwg.

### OPSIWN 2: AGOR YSGOL GYNRADD Â 315 O LEOEDD GYDA 36 O LEOEDD MEITHRIN RHAN-AMSER A CHYFLEUSTER ADDYSG OEDOLION / TROCHI CYSYLLTIEDIG.

**Pam gafodd yr opsiwn hwn ei ddiystyru?**

Byddai Ysgol Iolo Morganwg yn cau ac yn symud i safle Gerddi Clare mewn adeilad ysgol newydd ar gyfer ysgol â 315 o leoedd.

Nodwyd nad y model hwn oedd yr opsiwn a ffefrir am y rhesymau canlynol:

- Dim digon o leoedd i gyrraedd ein targedau yn y CSCA. Mae angen creu galw hirdymor ychwanegol.
- Nid yw nifer derbyn o 45 yn adlewyrchu'r dull derbyn safonedig a hyrwyddir gan y Cyngor.

### OPSIWN 3: CYNNAL Y SEFYLLFA BRESENNOL

**Pam gafodd yr opsiwn hwn ei ddiystyru?**

Nodwyd nad y model hwn oedd yr opsiwn a ffefrir am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r materion presennol gyda'r safle yn Ysgol Iolo Morganwg
- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn darparu amgylcheddau dysgu modern yn Ysgol Iolo Morganwg
- Ni fyddai unrhyw leoedd ysgol ychwanegol i wneud lle i'r disgyblion ychwanegol o ganlyniad i'r datblygiadau preswyl yn yr ardal.
- Ni fyddai unrhyw leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol i greu'r galw ychwanegol a disgwyliedig.

## 5. Y BROSES YMGYNGHORI STATUDOL

**Tabl 6: Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol**

| Camau | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cam 1: Datblygu cynnig** | Bydd cynnig cychwynnol yn cael ei ddatblygu a'i ystyried gan Gabinet y Cyngor. Mae Adran 2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi pryd y mae'n ofynnol dilyn y weithdrefn statudol. |
| **Cam 2: Ystyriaeth gan y Cabinet** | Cabinet y Cyngor yn ystyried y cynnig a chymeradwyaeth i ymgynghori. |
| **Cam 3: Ymgynghori** | Rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor. Rhaid i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a rhaid rhoi o leiaf 42 diwrnod i ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Rhaid i randdeiliaid a enwir yn adran 3.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) gael eu hysbysu trwy lythyr/e-bost. |

| | |
|---|---|
| **Cam 4: Adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad** | Bydd adborth a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael ei ystyried a bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r Cabinet i gael ei ystyried. |
| **Cam 5: Ystyriaeth gan y Cabinet** | Bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad a rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol. |
| **Cam 6: Hysbysiad statudol** | Rhaid i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol ac fel a nodir yn adran 4.1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). |
| **Cam 7: Cyfnod gwrthwynebu** | Mae gan unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig y cyfle i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy'r e-bost a chael eu hanfon at y cynigydd cyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad. |
| **Cam 8: Adroddiad gwrthwynebu** | Dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 pan fo gwrthwynebiadau wedi dod i law **rhaid** i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu"). |
| **Cam 9: Ystyriaeth gan y Cabinet** | Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu er mwyn penderfynu'n derfynol ar y cynnig. |
| **Cam 10: Llythyr penderfyniad** | Bydd cadarnhad o'r penderfyniad ac argaeledd adroddiad gwrthwynebu'n cael ei roi i randdeiliaid. |

## 5.1. DYDDIADAU ALLWEDDOL

Bydd adborth o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei goladu a'i grynhoi ac adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor. Gellir cael copïau hefyd ar gais trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Mae camau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor fynd drwyddynt cyn y gwneir penderfyniad terfynol. Caiff y camau hyn eu nodi isod:

**Tabl 7: Dyddiadau allweddol y broses**

| Y Broses Statudol | Graddfa Amser |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori | **27 Chwefror 2023** |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno barn ynglŷn â'r cynigion | **11 Ebrill 2023** |
| Adroddiad ymgynghori'n cael ei ystyried gan y Cabinet a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor | **25 Mai 2023** |
| Yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet, cyhoeddi hysbysiad statudol gan wahodd gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol yn ystod y cyfnod hwnnw | **5 Mehefin 2023** |
| Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol | **3 Gorffennaf 2023** |
| Penderfyniad gan y Cabinet gydag adroddiad gwrthwynebu. | **Medi 2023** |
| Hysbysu ynghylch y penderfyniad | **Medi 2023** |
| Capasiti uwch i gael ei gyflwyno o | **Medi 2025** |

***Gallai'r amserlen arfaethedig newid.***

# 6. CWESTIYNAU CYFFREDIN

*Beth os na fydd y galw uwch am addysg cyfrwng Cymraeg yn dod yn ffaith?*

Mae'r Cyngor yn hyderus bod digon o dystiolaeth i awgrymu y bydd y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i dyfu, gan adlewyrchu strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd dull rhagweithiol o hyrwyddo addysg ddwyieithog a chreu darpariaeth ychwanegol i gefnogi rhieni a disgyblion sy'n penderfynu trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg trwy ganolfan drochi neu ddarpariaeth debyg fel a amlinellir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynyddu'r niferoedd sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg dros y tymor hir. Byddai unrhyw leoedd gwag mewn ysgolion yn y cyfamser yn cael eu rheoli fel y byddent mewn unrhyw ysgol arall neu ased arall sy'n eiddo i'r Cyngor.

*Beth yw manteision addysg cyfrwng Cymraeg?*

Mae plant dwyieithog yn tueddu i fod â chyflawniad uwch o fewn y cwricwlwm a pherfformio'n well mewn arholiadau. Mae dysgu ail iaith pan ydynt yn ifanc yn helpu plant i fod yn dda am ddysgu ieithoedd ac yn rhoi mantais iddynt allu dysgu trydedd neu bedwaredd iaith wrth iddynt fynd yn hŷn. Yng Nghymru, mae siarad Cymraeg yn sgil ar gyfer y gweithle, yn enwedig o fewn y sectorau cyhoeddus a gwasanaethau, ac oherwydd newidiadau diweddar i'r gyfraith bydd ar fwy a mwy o gyflogwyr angen gweithlu dwyieithog. Mae dysgu trwy iaith arall yn helpu plant i ddatblygu mwy o sensitifrwydd i ddiwylliannau a chefndiroedd eraill. Mae siarad Cymraeg yn rhoi perthynas agosach i bobl â hanes, treftadaeth a thraddodiadau Cymru.

*Pa gymorth sydd ar gael i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg?*

Nid yw'r mwyafrif llethol o rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Fro'n siarad Cymraeg eu hunain. Dyma pam fod ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg wastad yn cyfathrebu gyda rhieni yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ym mron pob achos bydd gwaith cartref i ddisgyblion Cynradd yn cynnwys eglurhad yn Saesneg fel bod yr holl rieni'n gallu helpu eu plant gyda'r gwaith. Mae nifer o gylchoedd chwarae cyn ysgol cyfrwng Cymraeg yn y Fro sy'n cael eu rhedeg gan y sefydliad Mudiad Meithrin. Mae addysg Gymraeg i Oedolion yn cael ei hyrwyddo ledled Bro Morgannwg hefyd gydag ystod eang o gyrsiau ar gael o lefel dechreuwyr i lefel hyfedredd. Ceir rhagor o wybodaeth yn y llyfryn ar fod yn ddwyieithog: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Working/Education%20and%20Skills/Admissions-Guide/Being-Bilingual-booklet-English.pdf

*Beth yw graddfa amser fwriadedig y datblygiad?*

Y bwriad yw y byddai gwaith adeiladu'n dechrau ar safle newydd yr ysgol erbyn mis Gorffennaf 2024 ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Medi 2025.

*Pryd fyddai staff a disgyblion yn trosglwyddo i adeilad newydd yr ysgol?*

Y cynnig yw y byddai'r ysgol newydd yn agor erbyn mis Medi 2025.

*A fydd pennaeth newydd?*

Byddai'r holl staff a gyflogir yn yr ysgol ar y dyddiad trosglwyddo'n trosglwyddo'n awtomatig i'r safle newydd heb unrhyw newid i'w telerau ac amodau cyflogaeth.

Bydd unrhyw Gwestiynau Cyffredin pellach a ofynnir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hychwanegu at dudalen we'r ymgynghoriad.

# 7. CYNNWYS RHANDDEILIAID AC YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Mae ein proses ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Gofynnir i ystod o unigolion a grwpiau am eu barn ynglŷn â'r cynigion hyn.

Cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau â buddiant wneud eu barn a'u safbwyntiau ynglŷn â'r cynigion yn hysbys er mwyn galluogi'r Cabinet i ystyried y safbwyntiau hyn fel rhan o'r broses benderfynu.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

**Tabl 8: Rhestr o grwpiau i ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori**

| | |
|---|---|
| Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Iolo Morganwg | Corff Llywodraethu Ysgol Iolo Morganwg |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Iolo Morganwg | Cyngor Tref y Bont-faen |
| Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar (PDBC) Bro Morgannwg |
| Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad | Cynghorwyr Lleol |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Comisiynydd y Gymraeg |
| Estyn | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos ym Mro Morgannwg |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu Lleol | Undebau Llafur |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | Cyfarwyddwyr Addysg –<br><br>Pob Awdurdod Cyfagos |

## 7.1. CYNNWYS PLANT YN YR YMGYNGHORIAD

Wrth gyflwyno cynigion, rhaid i Gynghorau wneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a, lle y bo'n bosibl, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol. Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylai disgyblion Ysgol Iolo Morganwg gael y cyfle i wneud eu barn am y cynnig hwn yn hysbys.

Bwriedir cynnal gweithdy ymgynghori gyda disgyblion yn Ysgol Iolo Morganwg i gasglu eu barn am y cynnig. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn y sesiynau hyn yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i gael ei ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## 7.2. CYNNWYS RHIENI, LLYWODRAETHWYR A STAFF – SUT Y GALLWCH GAEL GWYBOD MWY A RHOI EICH BARN

Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer yr holl randdeiliaid fel rhan o'r broses.

Gwahoddir rhieni/gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion yn yr ysgol a'r gymuned i ddod i'r sesiwn galw heibio lle gallwch ofyn unrhyw gwestiynau am y cynnig.

Byddwn wastad yn gofyn i chi gwblhau ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad gan mai dim ond barn a fynegwyd yn ysgrifenedig y gallwn ei derbyn.

Bydd dyddiad a lleoliad y sesiwn galw heibio'n cael eu harddangos gan yr ysgol trwy wefan yr ysgol.

Rydym hefyd wedi trefnu cyfarfodydd ar gyfer staff a chorff llywodraethu'r ysgol.

Mae'r ddogfen hon a gwybodaeth ategol bellach i'w cael ar wefan Bro Morgannwg:

*(dolen i gael ei mewnosod yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet)*

Mae unrhyw ddiweddariadau i'w cael ar y cyfryngau cymdeithasol trwy ffrwd Twitter Bro Morgannwg a thrwy dudalen Facebook Cyngor Bro Morgannwg hefyd.

Mae manylion dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori i'w gweld isod:

**Tabl 9: Digwyddiadau Ymgysylltu'r Ymgynghoriad**

| Natur | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfod Staff | 15 Mawrth 2023, 3.30pm – 4.30pm | Ysgol Iolo Morganwg, Broadway, Y Bont-faen, CF71 7ER |
| Cyfarfod Llywodraethwyr | 15 Mawrth 2023, 6pm – 7pm | Ysgol Iolo Morganwg, Broadway, Y Bont-faen, CF71 7ER |
| Sesiwn galw heibio i Rieni a'r Gymuned | 16 Mawrth 2023, 8.30am – 9.30am 3pm – 4pm | Ysgol Iolo Morganwg, Broadway, Y Bont-faen, CF71 7ER |
| Sesiwn ymgysylltu â Disgyblion | 16 Mawrth 2023 | Ysgol Iolo Morganwg, Broadway, Y Bont-faen, CF71 7ER |
| Sesiwn galw heibio i'r Gymuned | 29 Mawrth 2023, 2.30pm – 6pm | Ysgol Iolo Morganwg, Broadway, Y Bont-faen, CF71 7ER |

## 7.3. SUT Y GALLWCH GAEL GWYBOD MWY A RHOI EICH BARN

### CAEL GWYBOD MWY

Mae'r ddogfen hon a rhagor o wybodaeth ategol i'w cael ar dudalen Ymgyngoriadau Ysgolion Bro Morgannwg.

Mae unrhyw ddiweddariadau i'w cael ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd trwy ffrwd Twitter Cyngor Bro Morgannwg a thrwy dudalen Facebook Cyngor Bro Morgannwg.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar **01446 709828** neu **sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.gov.uk** i gael rhagor o wybodaeth am y cynnig.

### RHOI EICH BARN

Bydd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o **27 Chwefror 2023 tan 11 Ebrill 2023**. Gallwch ymateb i'n cynigion unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwn. Mae eich barn chi'n bwysig i ni, ac mae nifer o ffyrdd y gallwch roi gwybod i ni.

Gallwch:

- Gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn:
  *(dolen i gael ei mewnosod yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet)*

  Neu

- Gwblhau’r ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a’i hanfon i:

  Ehangu Ysgol Iolo Morganwg

  Cyngor Bro Morgannwg

  Y Swyddfeydd Dinesig

  Heol Holton

  Y Barri

  CF63 4RU

Sylwer y dylai’r holl sylwadau a gyflwynir yn ysgrifenedig gynnwys enw llawn a chod post y sawl sy’n gwneud y sylwadau.

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yw 11 Ebrill 2023. Yn anffodus, ni fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried gan y Cyngor.**

Bydd yr holl ymatebion a gyflwynir i ni’n cael eu hystyried gan y Cabinet cyn ei fod yn penderfynu a yw’n mynd i gyhoeddi hysbysiad statudol am y cynigion ai peidio.

Er y bydd ymatebion oddi wrth ymgyngoreion sy’n gwrthwynebu’r cynigion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o’r adroddiad ymgynghori, ni fyddant yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o gyfnod yr hysbysiad statudol, os caiff ei gymeradwyo ar y cam nesaf, gan Gabinet y Cyngor. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu’r hysbysiad yn ystod cam nesaf y broses, os byddwn yn bwrw ymlaen â’r cam hwnnw, bydd angen i chi wneud hynny’n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebiadau statudol. Caiff y dyddiadau allweddol hyn eu nodi dan Adran 5.

# 8. FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Mae eich barn chi o bwys. Dywedwch wrthym beth ydych chi'n ei feddwl am y cynnig trwy:

- **gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein** yn:

*(dolen i gael ei mewnosod yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet)*

neu

- ateb y cwestiynau ymgynghori ac **ychwanegu eich safbwyntiau chi ar y ffurflen hon**

---

Dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad post:

Ehangu Ysgol Iolo Morganwg

Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid

Cyngor Bro Morgannwg

Y Swyddfeydd Dinesig,

Heol Holton

Y Barri CF63 4RU

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 11 Ebrill 2023. Yn anffodus, ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynigion, er y byddant yn cael eu hystyried gan y Cyngor wrth wneud ei benderfyniad. Dim ond yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

Sylwer y dylai'r holl sylwadau gynnwys enw llawn a chyfeiriad y sawl sy'n gwneud y sylwadau.

Gellir gofyn am unrhyw sylwadau a geir dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid eu cyhoeddi. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n datgelu pwy yw unigolyn megis enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post yn cael ei thynnu allan.

| | |
|---|---|
| **Eich Enw Llawn:** | |
| **Cod post:** | |

| **Dywedwch wrthym ym mha gymhwyster yr ydych yn ymateb** (ticiwch bob un sy'n berthnasol): | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhiant neu Warcheidwad* | | Tad-cu neu fam-gu* | | Disgybl***** | |
| Aelod o Staff* | | Llywodraethwr* | | Trigolyn Lleol | |
| Arall (rhowch fanylion) | | | | | |

| | |
|---|---|
| ***Cadarnhewch â pha ysgol(ion) y mae gennych gysylltiad:** | |

| **1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025?** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Dim barn y naill ffordd na'r llall | |
| **Eglurwch pam:** | | | | | |
| | | | | | |

| | |
|---|---|
| **2.** | **Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, rhowch fanylion y rhain isod.** |
| | |

| | |
|---|---|
| **3.** | **Unrhyw sylwadau eraill?** |
| | |

Diolch am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon i Gyngor Bro Morgannwg fan bellaf erbyn **11 Ebrill 2023.**

**Os ydych yn dymuno cael eich hysbysu ynghylch cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori trwy'r e-bost neu'r post, darparwch y manylion perthnasol isod:**

| | |
|---|---|
| **Rwy'n dymuno cael fy hysbysu trwy:** (dilëer fel y bo'n briodol) | E-bost / Post |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Cyfeiriad post:** | |

## Nodiadau

## 9. FFURFLEN MONITRO CYDRADDOLDEB BRO MORGANNWG

| **Rhywedd a Hunaniaeth o ran Rhywedd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Beth yw eich rhywedd? | ☐ Benyw<br>☐ Gwryw | | | |
| Pan gawsoch eich geni sut oeddech chi'n cael eich disgrifio? | ☐ Benyw<br>☐ Gwryw<br>☐ Rhyngrywiol<br>☐ Gwell gen i beidio â dweud | | | |
| **Anabledd** | | | | |
| A oes cyfyngiad ar eich gweithgareddau o ddydd i ddydd oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, afiechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am 12 mis neu fwy? | ☐ Oes – cyfyngiad mawr<br>☐ Oes – cyfyngiad bach<br>☐ Nac oes<br>☐ Gwell gen i beidio â dweud | | | |
| **Oedran** | | | | |
| Beth yw eich dyddiad geni? | | | | |
| **Hunaniaeth Genedlaethol** | | | | |
| **Hunaniaeth Genedlaethol – sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?** | | | | |
| ☐ Cymreig | ☐ Seisnig | ☐ Albanaidd | ☐ Gwyddelig Gogledd Iwerddon | ☐ Prydeinig |
| ☐ Arall (rhowch fanylion) | ☐ Gwell gen i beidio â dweud | | | |
| **Grŵp Ethnig** | | | | |
| **Ethnigrwydd – sut fyddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?** | | | | |

| **Gwyn** | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig | | ☐ Gwyddelig | |
| ☐ Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | ☐ Unrhyw gefndir gwyn arall (rhowch fanylion): | | |
| **Grwpiau ethnig cymysg/lluosog** | | | |
| ☐ Gwyn a Du Caribïaidd | ☐ Gwyn a Du Affricanaidd | ☐ Gwyn ac Asiaidd | |
| ☐ Unrhyw gefndir ethnig cymysg/lluosog arall (rhowch fanylion): | | | |
| **Asiaidd/Asiaidd Prydeinig** | | | |
| ☐ Indiaidd | ☐ Pacistanaidd | ☐ Bangladeshaidd | ☐ Tsieineaidd |
| ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall (rhowch fanylion): | | | |
| **Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig** | | | |
| ☐ Affricanaidd | ☐ Caribïaidd | | |
| ☐ Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall (rhowch fanylion): | | | |
| **Grŵp ethnig arall** | | | |
| ☐ Arabaidd | | | |
| ☐ Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion): | | | |
| ☐ Gwell gen i beidio â dweud | | | |

| **Y Gymraeg** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiwch eich gallu iaith Gymraeg trwy roi tic yn y blwch/blychau perthnasol isod.** | | | | |
| | **Deall** | **Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| Dim | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sylfaenol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cymwys | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Da | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhugl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **Hunaniaeth Ryweddol** | | |
| **Pa un o’r opsiynau canlynol sy’n disgrifio orau sut yr ydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?** | | |
| ☐ Gwahanrywiol / strêt | ☐ Hoyw neu lesbiaidd | ☐ Deurywiol |
| ☐ Arall | ☐ Gwell gen i beidio â dweud | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Crefydd** | | | |
| **Beth yw eich crefydd?** | | | |
| ☐ Dim crefydd | ☐ Cristnogaeth (pob enwad) | | ☐ Bwdhaeth |
| ☐ Hindŵaeth | ☐ Iddewiaeth | ☐ Islam | ☐ Sikhiaeth |
| ☐ Unrhyw grefydd arall (rhowch fanylion): | | ☐ Gwell gen i beidio â dweud | |

| | |
|---|---|
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | |
| Ydych chi’n feichiog ar hyn o bryd neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | ☐ Ydw<br>☐ Nac ydw<br>☐ Gwell gen i beidio â dweud |
| Ydych chi wedi cymryd absenoldeb mamolaeth o fewn y flwyddyn ddiwethaf? | ☐ Ydw<br>☐ Nac ydw<br>☐ Gwell gen i beidio â dweud |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | |

| | |
|---|---|
| Beth yw eich statws priodasol cyfreithiol neu eich statws cyfreithiol o ran partneriaeth sifil rhwng pobl o'r un rhyw? | ☐ Sengl, hynny yw erioed wedi bod yn briod ac erioed wedi'ch cofrestru mewn partneriaeth sifil rhwng pobl o'r un rhyw<br><br>☐ Priod ac yn byw gyda'ch gŵr/gwraig<br><br>☐ Wedi gwahanu ond yn dal yn briod yn gyfreithiol<br><br>☐ Wedi ysgaru<br><br>☐ Gweddw<br><br>☐ Mewn partneriaeth sifil gofrestredig rhwng pobl o'r un rhyw ac yn byw gyda'ch partner<br><br>☐ Wedi gwahanu, ond yn dal mewn partneriaeth sifil rhwng pobl o'r un rhyw yn gyfreithiol<br><br>☐ Wedi bod mewn partneriaeth sifil rhwng pobl o'r un rhyw sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol<br><br>☐ Yn bartner sy'n goroesi o bartneriaeth sifil rhwng pobl o'r un rhyw<br><br>☐ Gwell gen i beidio â dweud |